**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**
**Dydd Iau, 6ed Ebrill, 2017 at 2.00 pm**

**MYNYCHWYR:** Y Cynghorydd Sir S. Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Sir: D. Dovey, D. Edwards, A. Wintle

Hefyd yn bresennol Cynghorwyr Sir:
R.J.W. Greenland, P. Jones, V. Smith

**MYNYCHWYR:**

| | |
|---|---|
| Cath Fallon | Head of Economy and Enterprise |
| Rob O'Dwyer | Head of Property Services and Facilities Management |
| Hannah Jones | Youth and Community Officer |
| James Woodcock | Business Insights Manager |
| Hazel Ilett | Scrutiny Manager |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |

**YMDDIHEURIADAU:**

Y Cynghorydd Sir: B. Hayward, D. Evans, J. Prosser, S. White

1. **<u>Cyhoeddiad y Cadeirydd</u>**

Gan mai hwn oedd y cyfarfod olaf o'r Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu cyn yr Etholiadau lleol a gynhelir ar 4ydd Mai 2017, dymunai'r Cadeirydd ddiolch i'r Rheolwr Craffu, y Tîm Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Dethol am eu mewnbwn a'u cefnogaeth yn ystod y pum mlynedd flaenorol.

2. **<u>Datganiadau o Fuddiant.</u>**

Datganodd Y Cynghorydd Sir S. Jones fuddiant personol nad yw'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau parthed eitem 6 ar yr agenda – Diweddariad ynghylch ailbrisio ardrethi, gan mai hi yw Pennaeth Consortiwm Manwerthu Cymru. Aeth o'r neilltu rhag cadeirio'r eitem agenda hon ond arhosodd yn y cyfarfod. Etholwyd Y Cynghorydd Sir A. Wintle i gadeirio eitem 6, gan nad oedd yr Is-gadeirydd yn bresennol yn y cyfarfod.

Y Cynghorydd Sir S. Jones fuddiant personol nad yw'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau parthed eitem 7 ar yr agenda - Diweddariad ar Y Prentis gan ei bod yn gweithio i sefydliad sy'n delio â thalwyr ardollau yn y diwydiant manwerthu.

3. **<u>Cadarnhau'r cofnodion dilynol:</u>**

**3.1. Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu dyddiedig 9 Chwefror 2017.**
Cadarnhawyd y cofnodion ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

Wrth wneud hynny, nodwyd bod trefnwyr y velothon wedi cael eu gwahodd i gyfarfod heddiw ond nid oeddent yn gallu bod yn bresennol. Estynnwyd gwahoddiad i'r trefnwyr, gyda'r bwriad o'u gweld yn mynychu cyfarfod y Pwyllgor Dethol yn y dyfodol.

Byddai'r Rheolwr Craffu'n sicrhau bod yr adroddiad ar y datganiad buddsoddi ar gael i'r Pwyllgor Dethol.

**3.2. Cydbwyllgor Dethol (Pob un o'r pedwar Pwyllgor Dethol)**
Cadarnhawyd y cofnodion ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**4. <u>Cyflwyniad am Ddarpariaeth Band Eang yn Sir Fynwy.</u>**

Rhoesom groeso i'r cyfarfod i Vivien Collins, Rheolwr i Gyflymu Cymru i Fusnesau a David Elsmere, Rheolwr Partneriaeth i Gyflymu Cymru i Fusnesau er mwyn derbyn y cyflwyniadau canlynol:

- Diweddariad ar adleoli Cyflymu Cymru.
- Diweddariad ar Gyflymu Cymru i Fusnesau.

**Adleoli Cyflymu Cymru**

Ystadegau'n ymwneud â Sir Fynwy:

- Cyfanswm yr Adeiladau mewn Ardal Ymyrryd - 23,290
- Cyfanswm yr Adeiladau a Basiwyd ar 24Mbps ac yn uwch - 16,596
- Adeiladau Cysylltiad Ffibr i'r Cabinet a Basiwyd - 15,481
- Adeiladau Cysylltiad Ffibr i'r Adeilad a Basiwyd - 1,115

-

- Canran ALl mewn Ardal Ymyrryd yr ALl a Gwblhawyd - 71.26 %
- Y nifer a dderbyniodd Gysylltiad Ffibr i'r Cabinet - 32.26%
- Y nifer a dderbyniodd Gysylltiad Ffibr i'r Adeilad - 21.45%
- Cyfartaledd Cyflymdra'r Lawrlwytho - 78Mbps

Wedi derbyn cyflwyniad ar adleoli Cyflymu Cymru, caniataodd y Cadeirydd i aelodau'r cyhoedd a chynrychiolwyr o Gyngor Cymuned Llanofer i amlinellu'u pryderon a holi cwestiynau ynghylch y mater hwn. Wrth wneud hynny codwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd Llanofer wedi derbyn cyflwyniad gan BT y llynedd. Fodd bynnag, nid oedd un o'r addewidion a wnaed gan BT wedi'u gwireddu. Ymddengys nad oes unrhyw sancsiynau yn eu lle i sicrhau cwblhau'r addewidion a wnaed. Mewn ymateb, nodwyd bod gan BT dargedau chwarterol sydd yn rhaid cwrdd â hwy ond nad ydynt yn benodol i le. Fodd bynnag, mae'n rhaid i BT gwrdd â'r niferoedd a osodir. Os na ddigwydd hyn, gosodir cosbau ariannol yn eu lle.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**
**Dydd Iau, 6ed Ebrill, 2017 at 2.00 pm**

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ynghylch diffiniad ardal anghysbell, nodwyd nad oedd diffiniad. Fodd bynnag dywedodd Rheolwr Cyflymu Cymru, mewn perthynas â llefydd penodol sydd ar hyn o bryd yn profi problemau gyda'u cysylltiad band eang, byddai'n codi'r materion hyn gyda BT.

- Nodwyd y byddai 96% o'r eiddo yng Nghymru'n derbyn mynediad i fand eang ac eithrio'r ardaloedd anghysbell o fewn Cymru. Mae Sir Fynwy'n Sir wledig, fodd bynnag, nid yw'n anghysbell.

- Mynegwyd pryder ynghylch y diffyg gwybodaeth a ddangoswyd gan BT pan fydd peiriannydd yn ymweld ag Llanofer. Yn aml, mae peirianwyr yn dibynnu ar wybodaeth leol i'w goleuo ynghylch lleoliad blychau a pha eiddo sy'n gysylltiedig â pha flwch. Mae hyn yn digwydd yn rheolaidd. Ymddengys na chaiff y wybodaeth hon ei chadw ar gyfer y tro nesaf y bydd peiriannydd yn ymweld â lleoliad penodol. Dywedodd Rheolwr Cyflymu Cymru y byddai'r mater hwn yn cael ei ddwyn yn ôl i BT.

- Mae eiddo yn Llanofer â their llinell BT ar gyfer tri busnes gwahanol. Fodd bynnag, nid yw un o'r llinellau'n derbyn darpariaeth band eang dibynadwy. Mae hyn yn effeithio effeithiolrwydd y busnesau. Lleolir yr eiddo ddwy filltir yn unig o'r brif briffordd. Mae'r preswylydd yn talu am ddwy linell band eang ond nid yw'n derbyn gwasanaeth digonol. Cytunodd Rheolwr Cyflymu Cymru gymryd manylion yr eiddo a byddai'n derbyn ymateb oddi wrth BT.

- Nodwyd bod angen i'r gymuned ffermio gael darpariaeth band eang dibynadwy gan na ellir cyflwyno rhai data a hawliadau grant i'r llywodraeth ond ar-lein yn unig.

- Mae landlord tŷ tafarn yn Llanofer Uchaf yn profi problemau tebyg gyda darpariaeth band eang annibynadwy sy'n cael effaith andwyol ar ei fusnes. Dywedodd y Rheolwr dros Gyflymu Cymru y byddai'n dwyn manylion y mater hwn yn ôl ac yn eu trosglwyddo i BT.

- Dau o'r prif sectorau yn Sir Fynwy yw twristiaeth a ffermio ac effeithir yn negyddol ar y rhain gan ddiffyg darpariaeth band eang o ansawdd dda.

- Ystyriwyd y dylai Llywodraeth Cymru fynnu darpariaeth band eang ar isafswm cyflymdra gyda'r bwriad o sicrhau gwasanaeth cyson.

- Dywedodd y Rheolwr dros Gyflymu Cymru, ar gyfer yr ardaloedd hynny heb ddarpariaeth band eang hyd yn hyn ac efallai na fyddant yn y rhaglen, gall yr ardaloedd hyn wneud cais am y Grant Mynediad i Fand Eang Cymru.

**Craffu Aelodau**

- Dychwelwyd Arolygon ar gyfer ardal Rhaglan a'r prif broblemau yma yw'r gwasanaeth band eang gwael a ddarperir.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**
**Dydd Iau, 6ed Ebrill, 2017 at 2.00 pm**

- Mewn perthynas â'r camau nesaf, nodwyd wedi cwblhau'r contract cyfredol yn 2017, yn ystod y chwe mis olaf y nod yw mynd allan i gaffael i ddwyn y rhwydwaith ymhellach. Mae'r Gweinidog wedi clustnodi cyllideb o £80M ar gyfer y tair i bum mlynedd nesaf.

- Gallai'r ardaloedd na leolir o fewn yr Ardal Ymyrryd wneud cais am y Grant Mynediad i Fand Eang Cymru.

- Mae angen i gymunedau na leolir o fewn yr Ardal Ymyrryd ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn a allent gael eu cynnwys.

- Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar ddechrau Mai 2017 am un mis. Bydd hyn yn caniatáu i gymunedau wirio a ydynt wedi cael eu cynnwys yn yr Ardal Ymyrryd. Bydd hyn drwy gyfrwng lefel eiddo ac nid lefel cod post.

- Mewn perthynas ag ymholiadau unigol, mae'r Awdurdod yn cadw cronfa ddata ar gyfer yr adeiladau hynny sydd â phroblem, i gofrestru. Mae rhai cynlluniau peilot yn rhedeg ar hyn o bryd. Mae un o'r rhain ar gyfer gofod gwyn Teledu sy'n defnyddio signalau teledu analog ar gyfer band eang. Y cynllun peilot arall yw Rhyngrwyd AB. Daeth y cyllid ar gyfer cynllun peilot Rhyngrwyd AB, sy'n cynnwys Llanofer, yn uniongyrchol o Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

- Mewn perthynas â cheblau, nodwyd y gellir gosod ceblau ond nid ydynt yn fyw. Pan ddeuant yn fyw, a all gymryd hyd at ddau i dri mis, bydd BT wedyn yn dechrau cysylltu â phreswylwyr. Mae gwiriwr argaeledd ar Wefan Llywodraeth Cymru. Nid yw'r cyfathrebiadau ynghylch y wybodaeth hon yn gyffredin. Mae angen gwneud BT yn ymwybodol o'r mater hwn.

- Mae'r system EcoPOP yn defnyddio ynni adnewyddadwy i bweru'r system Rhyngrwyd AB. Fodd bynnag, fe fu rhai problemau ynghylch dibynadwyedd y system hon ac fe gawsant eu nodi.

- Sir Fynwy oedd un o'r rhanbarthau cyntaf yng Nghymru i dderbyn ceblau ffibr ond Sir Fynwy yw'r rhanbarth olaf i gael ei chysylltu.

- Mae gan yr ystadau tai newydd yn Nhrefynwy geblau ffibr. Dibynna ardaloedd eraill yn Nhrefynwy ar geblau copr gyda chyflymdra arafach.

- Mynegwyd pryder bod y contract gyda BT yn dibynnu ar nifer y cysylltiadau a ddarperir. Felly, bydd BT yn mynd i'r ardaloedd sydd hawsaf eu cysylltu yn hytrach na mynd i'r ardaloedd sydd o angenrheidrwydd angen eu cysylltu'n gynt. Ystyriwyd bod angen adolygu'r contract.

- Mae'r Fargen Ddinesig sydd ar fin dod a'r gostyngiad yn nhollau Pont Hafren yn newyddion da. Felly gwneir ymholiadau gan fusnesau ynghylch y cyfleoedd a'r argaeledd ar gyfer lleoliadau busnes newydd yn Sir Fynwy. Fodd bynnag, Sir Fynwy sydd â'r ddarpariaeth band eang waethaf yng Nghymru a chaiff hyn effaith

negyddol ar fusnesau sy'n bodoli eisoes ac ar fusnesau â bwriad i sefydlu lleoliadau o fewn y Sir.

- Heb yr ardal ymyrryd nodwyd y byddai 16,000 o adeiladau yn Sir Fynwy heb dderbyn y gwasanaeth.

- Mewn perthynas â'r targedau parthed niferoedd, nodwyd ei bod yn ofynnol i BT fynd i nifer o godau post penodol gaiff eu dynodi fel ardaloedd blaenoriaeth. Penderfynir ar yr ardaloedd hyn ar ddechrau'r prosiect ac fe'u hadwaenir fel parthau gwerth ac fe'u lleolir yn yr ardaloedd mwyaf anodd eu cyrraedd. Mae'n rhaid i BT gyrraedd 100% o'r parthau gwerth hyn.

- Cynghorwyd bod y Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref a Chymuned o fewn Sir Fynwy'n ysgrifennu at y Gweinidog yn Llywodraeth Cymru ac yn sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed yn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer y cyfnod nesaf.

- Dylid estyn gwahoddiad i'r Gweinidog fynychu cyfarfod y Pwyllgor Dethol yn y dyfodol i glywed y pryderon yn uniongyrchol.

- Ar hyn o bryd 71% o Sir Fynwy sy'n derbyn band eang. Bydd ffigurau newydd ar gael ar ddiwedd Mai 2017.

- Ystyriwyd bod cymunedau gwledig yn colli allan ar ddarpariaeth band eang er bod cyllid wedi bod ar gael ar gyfer darpariaeth band eang mewn cymunedau gwledig.

- Mynegwyd pryder bod darpariaeth band eang yn Sir Fynwy'n wael a bod angen ei dwyn i fyny i'r un lefel â siroedd eraill o fewn Cymru. Dygid y neges hon yn ôl i BT.

- Bydd y broses ymgynghori ar gael ar-lein a hefyd drwy'r post.

- Mae nifer o breswylwyr yn talu am Gyflymu Cymru ond maent wedi'u cysylltu i'r Cabinet anghywir ac maent yn talu am wasanaeth na allant gael mynediad iddo. Dygid y mater hwn yn ôl i BT.

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd, nodwyd mai rhai o'r adeiladau ar ôl oedd y rheiny lle mae cysylltiad yn ddrud i'w osod. Mae cyllideb benodol i'r rhaglen. Y nod yw cael cymaint â phosib o adeiladau wedi'u pasio. Felly, bydd rhai o'r adeiladau drutaf y tu allan i'r rhaglen. Mae hefyd amod yn y contract sy'n datgan, os yw'n debygol o gostio mwy na £1700 i fynd i eiddo sengl yna mae'n rhaid i BT fynd at Lywodraeth Cymru a gofyn am ganiatâd i fynd i'r eiddo neu a ddylai BT fynd i ardal a fydd yn darparu gwell gwerth am arian.

- Yn groes i'r wybodaeth a ddarparwyd ynghylch darpariaeth Cyflymu Cymru yn Devauden, nodwyd nad oedd y gwasanaeth wedi'i osod yn y pentref a bod preswylwyr yn dal i ddisgwyl am gael eu cysylltu.

- Roedd BT wedi gosod hawliad yn fisol am nifer o adeiladau dan nifer o gyfnewidfeydd. Mae dau ymgynghorydd llawn amser sy'n ymchwilio a yw'r wybodaeth a ddarperir gan BT yn dechnegol gywir. Yna caiff 20% o'r adeiladau'u gwirio'n ffisegol i sicrhau bod y cysylltiadau'n gywir. Mae hyn yn cynnwys cyflymdra lawrlwytho.

**Cyflymu Cymru i Fusnesau**

**Craffu Aelodau:**

- Mae pum gweithdy a fydd yn cael eu cynnal yn Sir Fynwy.
- Gyda phob un o'r awdurdodau lleol, mae gan Gyflymu Cymru i Fusnesau gynllun cyflenwi sy'n ddogfen weithio.
- Mae rhan o'r cyflenwi o'r gweithdy'n fyw drwy gyfrwng gwefannau felly mae angen cysylltedd band eang da i arddangos y rhaglen.
- Cynhelir digwyddiadau brecwast yn ogystal.
- Mae cydgysylltiad gyda'r Cyngor Sir yn allweddol i sicrhau llwyddiant ac mae'r Awdurdod yn gefnogol iawn i'r rhaglen.
- Byddai'r Pwyllgor Ddethol yn croesawu diweddariad ar gynnydd ymhen rhai blynyddoedd.

**<u>Casgliad y Pwyllgor:</u>**

- Nid ydym wedi gweld y sicrwydd roeddem yn chwilio amdano neu'n gobeithio amdano.
- Mae cyfleoedd i ddylanwadu ar welliannau.
- Mae angen atebion i'r cwestiynau a godwyd.
- Mae'r agwedd a gymerir gan BT yn wirioneddol niweidiol i'r Sir oherwydd ein bod yn syrthio y tu ôl i weddill Cymru.
- Mae angen i ni sicrhau ein bod yn cefnogi'n cymunedau gwledig, ein busnesau a thwristiaeth drwy adeiladu'r seilwaith digidol sydd angen bod yn effeithiol ac yn ateb y diben i'r dyfodol.
- Rhaid bod yn ymwybodol o'r cyfnod ymgynghori sy'n cychwyn ar Fai 2017 a gweithredu'n unol â hynny.
- Yr Aelodau i dderbyn map o Sir Fynwy yn dynodi'r ardaloedd o fewn y Sir, ar lefel adeilad, sy'n derbyn darpariaeth band eang sy'n

dderbyniol.

- Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor Dethol, yn crynhoi'r materion a godwyd heddiw ac yn anfon at y Gweinidog gais bod y Gweinidog yn mynychu cyfarfod y Pwyllgor Dethol yn y dyfodol i ateb cwestiynau ynghylch y mater hwn.

5. **Craffu Cynnig Addysg Ieuenctid - Menter.**

**Cyd-destun:**

Craffu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Craffu Cynnig Addysg Ieuenctid - Menter 2017/18.

**Materion Allweddol:**

Codi ymwybyddiaeth o'r Cynnig Addysg Ieuenctid - Menter a'i ddatblygu drwy weithio gydag ysgolion, colegau a phartneriaid eraill i wella'r ddarpariaeth gyfredol mewn modd mwy cydlynol. Bydd y cynnig yn defnyddio cyfleoedd menter ac entrepreneuriaeth sy'n bodoli eisoes yn Sir Fynwy.

Darparu cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogadwyedd drwy gyflawni rhaglenni Inspire2Achieve (I2A) ac Inspire2Work (I2W) CGE (Cronfa Gymdeithasol Ewrop) ar gyfer personau 11-24 oed, gan weithio tuag at flaenoriaeth 3 CGE – Cyflogaeth Ieuenctid Amcan 1 Penodol – Lleihau'r nifer o ieuenctid 16 -24 oed Nad Ydynt Mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET) ac Amcan 2 Penodol – Lleihau nifer y rheiny ddaw yn ieuenctid Nad Ydynt Mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET) ymhlith y rheiny o 11 -24 oed.

Cynnal pobl drwy wneud y dewisiadau cywir a chefnogi ymyriadau.

Gweithio'n glos gyda phartneriaid i weithredu pecyn cymorth i'r rheiny rhwng 16-24 oed sydd fwyaf agored i niwed er mwyn ehangu'u sgiliau a'u diddordebau, a lleihau digartrefedd drwy hyrwyddo byw'n annibynnol.

Ceisio cynyddu ymgysylltiad rhwng pobl ifanc a busnesau lleol drwy ysgogi llwybrau gyrfa yn y dyfodol a chyfleoedd gwell i gynulleidfa leol a chydweithio gyda chyflogwyr lleol.

Darparu profiad /lleoliad gwaith, cyfleoedd ar gyfer hyfforddeiaeth a phrentisiaeth o fewn fframwaith polisi, gan gefnogi rhaglen brentisiaeth Y Prentis.

**Craffu Aelodau:**

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol ynghylch gofalwyr ifanc, nodwyd bod yr adroddiad yn cyfeirio at bobl ifanc sy'n agored i niwed, sy'n cynnwys gofalwyr ifanc.

- Roedd yn hanfodol bod pob person ifanc yn cyrraedd eu llawn botensial. Ar gyfer rhai pobl ifanc, roedd cynlluniau prentisiaeth yn hanfodol i'w galluogi i wireddu'u hamcanion.

- Byddai'n briodol adolygu cynnydd y cynllun gweithredu drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys astudiaethau achos llwyddiannus.

- Ceisio cael mwy o fusnesau i ymgysylltu.

- Dygir y Cynnig i mewn i ysgolion a cholegau gyda'r bwriad o agor i fyny fwy o gyfleoedd i bobl ifanc. Gwahoddir busnesau i mewn i ysgolion hefyd gan wahodd deialog agored rhwng ysgolion / colegau a busnesau.

**<u>Casgliad y Pwyllgor:</u>**

Penderfynasom:

(i) gefnogi Cynllun Gweithredu'r Cynnig Addysg Ieuenctid - Menter i alluogi ymgysylltu parhaus rhwng pobl ifanc, ysgolion a phartneriaid.

(ii) fod Aelodau'n hyrwyddo'r Cynnig Addysg Ieuenctid - Menter yn eu swyddogaeth fel cynrychiolwyr yn eu wardiau ar draws Sir Fynwy.

(iii) ymweld â'r Mentoriaid Busnes.

**6. <u>Diweddariad ar ailbrisio trethi.</u>**

**Cyd-destun:**

Darparu diweddariad ynghylch ailbrisio ardrethi busnes o 1$^{af}$ Ebrill 2017.

**Materion Allweddol:**

- Daeth y gwerthoedd ardrethi newydd i rym ar 1af Ebrill 2017.

- Mae'r Cyngor yn defnyddio'r gwerth ardrethol i gyfrifo'r biliau ardrethi busnes drwy'i luosi â phuntdal ardreth a osodir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru.

- Ar gyfer 2017/18 mae'r puntdal hwnnw yn 0.499. Dengys biliau ardrethi newydd y gwerth ardrethol diwygiedig a'r swm sy'n daladwy ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18.

- Canlyniad yr ymarfer ailbrisio fu newidiadau arwyddocaol mewn gwerth ardrethol ar gyfer rhai busnesau ac mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod angen amser

ar fusnesau i addasu i gynnydd yn eu hatebolrwydd ardrethol ac felly mae wedi cyflwyno rheoliadau newydd i ddarparu cynllun rhyddhad trosiannol. Nid oes angen gwneud cais – Bydd y cyngor yn cymhwyso'r rhyddhad hwn yn awtomatig i fusnesau sy'n gymwys fel a ganlyn:

- 2017/18 75% o'r cynnydd mewn pris.
- 2018/19 50% o'r cynnydd mewn pris.
- 2019/20 25% o'r cynnydd mewn pris.

**Cymhwyster ar gyfer Rhyddhad Trosiannol**

- Talwyr ardrethi sy'n derbyn Rhyddhad Ardrethol i Fusnesau Bach (SBRR) ar 31ain Mawrth 2017 sydd o ganlyniad i gynnydd mewn gwerth ardrethol yn dilyn yr ailbrisio.
- Mae'n rhaid i'r adeilad busnes gael ei ddangos ar y Rhestr Ardrethi ar 31ain Mawrth 2017.
- Mae'n rhaid i'r cynnydd mewn atebolrwydd ardrethol fod yn fwy na £100.
- Mae'n rhaid i'r eiddo fod wedi'i feddiannu.
- Mae'n rhaid i'r talwr ardreth barhau i fod yr un person ag a oedd yn atebol ar 31ain Mawrth 2017.
- Mae'n rhaid i'r talwr ardreth fod heb dderbyn rhyddhad dan S44A (mae'n gymwys ar gyfer eiddo gaiff ei feddiannu'n rhannol am gyfnod byr o amser yn unig).
- Os yw rhywun yn gymwys ar gyfer rhyddhad trosiannol, fe fydd yn eglur ar y bil ardrethi.

**Rhyddhad Ardrethol i Fusnesau (SBRR)**

Bydd y cynllun SBRR yn parhau i mewn i 2017/18. Mae eiddo â gwerth ardrethol hyd at £6,000 yn talu dim. Mae eiddo â gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £12,000 yn derbyn rhyddhad graddedig. Gallai busnesau sy'n derbyn SBRR hefyd elwa o gynllun rhyddhad trosiannol.

Os yw rhywun yn gymwys ar gyfer rhyddhad i fusnesau bach fe fydd hyn yn eglur ar y bil ardrethi.

**Cynllun Rhyddhad Ardrethol yn Targedu'r Stryd Fawr**

Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid o £10 miliwn i'w ddosbarthu rhwng y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn darparu mwy o gymorth i rai busnesau manwerthu gan gynnwys y rheiny sydd wedi gweld eu hardrethi'n cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i'r ailbrisio. Seilir y cynllun ar y Cynllun Rhyddhad Manwerthu Cymru blaenorol, gan ddefnyddio'n fras yr un meini prawf eithriadau a chymhwyster i ddiffinio'r hyn yw eiddo manwerthu.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**
**Dydd Iau, 6ed Ebrill, 2017 at 2.00 pm**

Dim ond newydd gael eu cwblhau mae rhai manylion y cynllun ond bydd yn darparu dwy haen o ryddhad. Hyd at £500 (haen 1) a £1,500 (haen 2) i eiddo sy'n gymwys â gwerth ardrethol o £50,000 neu lai yn y flwyddyn ariannol 2017/18.

Gellir rhoddi'r rhyddhad newydd hwn i'r Stryd Fawr yn ychwanegol at y SBRR a'r rhyddhad trosiannol ac fe'i cymhwysir i'r bil net wedi i bob rhyddhad arall gael ei gymhwyso. Rhoddir rhyddhad yn seiliedig ar amgylchiadau'r eiddo a'r talwr ardrethi ar 1af Ebrill 2017. Ni chaiff newidiadau a ddigwydd ar ôl y dyddiad hwnnw unrhyw effaith ar y cymhwyster ar gyfer rhyddhad.

**Mae busnesau nad ydynt yn gymwys ar gyfer rhyddhad yn targedu'r Stryd Fawr yn cynnwys:**

- Eiddo â gwerth ardrethol sy'n fwy na £50,000.
- Eiddo nad ydynt yn hygyrch iawn i'r cyhoedd.
- Eiddo wedi'u lleoli mewn parciau manwerthu ar gyrion y dref neu ar ystadau diwydiannol.
- Eiddo nad ydynt wedi'u meddiannu.
- Y rheiny sy'n derbyn rhyddhad ardrethol gorfodol elusennol.

**Craffu Aelodau:**

- Mae rhai busnesau yn Sir Fynwy'n profi cynnydd mewn ardrethi busnes hyd at 585%.

- Mae'r Aelod Cabinet wedi ysgrifennu at Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet, Llywodraeth Cymru, i'w wneud yn ymwybodol o'r problemau mae Sir Fynwy'n eu profi ar lefel leol.

- Mae Sir Fynwy'n profi cynnydd cyfartalog o 7% tra mae Caerdydd yn derbyn gostyngiad o 5%.

- Yn Lloegr, lle bu cynnydd mewn ardrethi busnes ar gyfer busnesau bach a thafarndai, cafodd y rhain eu capio ar gynnydd o £50 y mis ac yna'u graddoli'n raddol dros gyfnod o amser i ganiatáu i fusnesau bach gynefino â'r cynnydd. Ni weithredir y cynllun hwn yng Nghymru.

- Mae pryder nad yw busnesau'n cael eu hamddiffyn yn erbyn y cynnydd sylweddol hwn mewn ardrethi busnes a allai arwain at gyfnod trychinebus i fusnesau bach yn Sir Fynwy.

- Mae proses apelio sy'n rhad ac am ddim. Yn y cyfamser, bydd yn ofynnol i fusnesau dalu unrhyw gynnydd yn ystod y broses apelio ond fe ad-delir yr arian os enillir yr apêl. Cyflymir y broses apelio lle mae achosion o galedi.

- Mae biliau ardrethi busnes bellach wedi mynd allan i fusnesau bach. Mae'r biliau hyn yn ystyried unrhyw ryddhad ardrethol i fusnesau bach y gallai busnes fod yn

gymwys ar ei gyfer a rhyddhad trosiannol ardrethol ond ni chafodd y cynllun rhyddhad ardrethol i'r stryd fawr ei gwblhau mewn amser i'w ymgorffori i mewn i filiau ardrethi busnes. Felly, bydd angen i filiau gael eu hailgyflwyno maes o law i adlewyrchu unrhyw ryddhad ardrethol i'r stryd fawr y gallai busnesau fod yn gymwys ar ei gyfer.

- Mynegwyd pryder bod busnesau lletygarwch yn cael eu targedu mewn perthynas â'u gwerthoedd ardrethi.

- Ni chymhwyswyd cymedroldeb ar draws Cymru.

**Casgliad y Pwyllgor:**

- Dylid ystyried sesiwn Briffio Aelodau gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio (ASB).

- Byddai'r safbwyntiau a amlinellwyd yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru yn mynegi'r pryderon a godwyd parthed cynnydd mewn ardrethi busnes ar gyfer busnesau Sir Fynwy.

7. **Diweddariad Y Prentis.**

**Cyd-destun:**

Craffu Cynllun Busnes 'Y Prentis' 2016-18.

**Materion Allweddol:**

Sefydlwyd Y Prentis yn 2012 gan CMC$^2$ a Chartrefi Melin fel cwmni 'na fyddai'n gwneud elw', cyfyngedig drwy warrant, Y Prentis yw unig gyflenwr cydnabyddedig rhannu prentisiaethau mewn adeiladu yn Ne-ddwyrain Cymru i'r Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB). Ei weledigaeth yw 'darparu cyfleoedd cyflogaeth hirdymor i helpu pobl ifanc fwyafu'u potensial' a'i nod yw recriwtio 50 o brentisiaid newydd wedi'u noddi gan CITB bob blwyddyn a 10 prentis wedi'u noddi gan Y Prentis bob blwyddyn.

Mae blaenoriaethau Y Prentis yn glir, sef:

- Cyflenwi mwy o brentisiaethau i gwrdd ag angen diwydiant.

- Cadw cyflenwad y newydd ddyfodiaid i lifo.

- Datblygu cynnig o yrfa sy'n hyrwyddo'r sector adeiladu fel llwybr i ffyniant economaidd i bobl o bob cefndir.

- Gweithio gyda CITB, ysgolion, colegau, prifysgolion a chyflenwyr hyfforddiant eraill i sicrhau ein bod yn datblygu'u gwybodaeth, a'u dealltwriaeth o ofynion y sector adeiladu.

- Darparu cefnogaeth i helpu busnesau i wella'u min cystadleuol a chymryd mantais o gyfleoedd newydd.

- Gweithio gyda'r CITB, diwydiant a'r llywodraeth i helpu i gyflenwi prosiectau seilwaith.

**Craffu Aelodau:**

- Hyd yn hyn, mae Y Prentis wedi galluogi dros 160 o bobl ifanc i gael mynediad i brentisiaethau cynaliadwy sy'n cynnig cyflog byw ac mae 12 o'r rhain o Sir Fynwy.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol, nodwyd bod manylion yr ardoll yn dal i gael eu datblygu. Mae Swyddogion yn disgwyl fframweithiau a chyngor Llywodraeth Cymru.

- Mae'r galw eisoes yn uchel ac mae'n argoeli i barhau'n uchel yn y blynyddoedd i ddod parthed y sgiliau sydd yn ofynnol ar gyfer y diwydiant adeiladu. Mae Y Prentis yn y lle delfrydol i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw.

- Mae astudiaeth ar y gweill drwy gyfrwng y Cynllun Datblygu Gwledig (RDP) yn nhermau anghenion ar gyfer y sector arlwyo. Mae'n debygol y bydd cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau yn y maes hwn ac mewn sawl maes arall.

- Gall Model Y Prentis fod yn gymwys i wahanol sectorau ond mae'n gweddu i'r dim i'r diwydiant adeiladu a hefyd peirianneg.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol, nodwyd bod gan Y Prentis wyth coleg sy'n bartneriaid. Mae Y Prentis wedi'i bartneru gyda 60 o gontractwyr ac mae ganddo oddeutu 30 o gleientiaid. Mae'r ddeialog gyda cholegau ynghylch yr hyn sy'n ofynnol yn un barhaus ons mae angen ei chymryd ymhellach.

- Mae'n ofynnol i'r math o addysg sydd angen ei gosod yn ei lle ym mhob ysgol a choleg allu darparu ar gyfer y mathau o brentisiaethau a gaiff eu cynnig. Mae'r strategaeth addysg ar hyn o bryd yn cael ei hadolygu. Felly, dyma gyfle da i fynd i'r afael â'r materion hyn.

- Mae model Y Prentis yn cwmpasu rhanbarth De-ddwyrain Cymru'n gyfan gwbl. Felly, nid eithrir neb o bortffolio prosiectau posib a allai fod yn gyfrwng darparu cyfleoedd hyfforddiant i bobl ifanc.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol ynghylch cyllid Y Prentis, nodwyd bod Y Prentis yn gweithredu ar warged a bod ganddo arian iach wrth gefn i syrthio nôl arno os bydd angen.

- Mae perthynas weithio glos ar hyn o bryd gyda Gyrfaoedd Cymru parthed cynghori pobl ifanc. Nodwyd bod Costain ar hyn o bryd yn gweithio ar Ddeuoli Blaenau'r Cymoedd rhwng Gilwern a Brynmawr ac roeddent yn annog y cyhoedd i ymweld â'r safle. Nodwyd i'r mater hwn gael ei ddynodi ac roedd awydd dilyn y mater hwn drwodd.

**Casgliad y Pwyllgor:**

- Mae gan y Pwyllgor Economi yn Llywodraeth Cymru ymholiad ar y gweill ar hyn o bryd ynghylch prentisiaethau. Gallai Cyngor Sir Fynwy osod ei safbwynt gerbron parthed y mater hwn gyda'r bwriad o helpu i ffurfio polisi cenedlaethol.

**8. Blaenraglen Waith Craffu Economi a Datblygu.**

Aethom ati i graffu Rhaglen Waith y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu.

Wrth wneud hynny, byddai'r rhaglen waith yn cael ei diwygio i gynnwys gwahodd trefnwyr y velothon i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Dethol yn y dyfodol.

Penderfynasom dderbyn yr adroddiad a nodi'i gynnwys.

**9. Blaenraglen Gwaith y Cabinet a'r Cyngor.**

Penderfynasom dderbyn Blaenraglen Waith y Cabinet a'r Cyngor a'i nodi.

**10. Nodi dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu ar ddydd Iau 8fed Mehefin 2017 am 10.00am.

**The meeting ended at 4.50 pm**